



# Cynnig i Ffederaleiddio Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton

## Adroddiad Ymgynghori

**Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol:  
3 Mehefin 2019 tan 14 Gorffennaf 2019**

### Diben

Paratowyd yr adroddiad hwn yn dilyn diwedd cyfnod o ymgynghori gyda rhanddeiliaid ar gynnig i ffurfiol ffederaleiddio'n ffurfiol Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried ar wahân gan gyrrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton. Dan **Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014** mae gan y ddau gorff llywodraethu'r hawl i benderfynu a ydyn nhw'n dymuno gweld y cynnig hwn i ffederaleiddio'r ysgolion yn cael ei wireddu ai peidio.

Mae adroddiad yr ymgynghoriad yn cyfeirio'n benodol at y canlynol:

- Y Cynnig
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Llais y Dysgwr
- Adborth gan Staff
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad
- Estyn
- Argymhellion

## Y Cynnig

Bwriad cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt dan **Reoliadau Ffederaleiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014** i sefydlu'n ffurfiol **Partneriaeth Ysgol Gynradd Eveswell a Somerton** a hynny o 1 Ionawr 2020 ymlaen.

Nod y Ffederasiwn yw i'r ddwy ysgol weithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r canlynol:

- arferion cyffredin rhagorol sy'n gwarantu profiadau rhagorol a mwy o gyfleoedd i'r disgyblion a'r staff, a
- nodau cyffredin a dulliau adlewyrchol i ddysgu ac addysgu fydd yn sicrhau bod y ddwy gymuned yn cael budd o addysg safonol.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Anfonwyd gwahoddiad i gymryd rhan mewn ymgynghoriad statudol i rhanddeiliaid fel yr amlinellir isod gydag un ai dolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor ac anfon fersiwn electronig o'r pecyn drwy e-bost, neu fel arall, gopi caled o ddeunydd yr ymgynghoriad yn cael ei ddsbarthu:

- Athrawon a'r staff a gyflogir gan Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton
- Rhieni, gofalwyr a gwarchodwyr disgyblion Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton.
- Disgyblion Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton.
- Undebau llafur yr athrawon a'r staff cynorthwyol sy'n cynrychioli'r athrawon a'r staff a gyflogir gan Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton
- Aelodau etholedig wardiau Alway a Beechwood Cyngor Dinas Casnewydd;
- Penaethiaid Ysgol Uwchradd Llanwern, Ysgol Uwchradd Llisweri, Ysgol Gynradd Alway, Ysgol Gynradd Glan Llyn, Ysgol Gynradd Llanmartin, Ysgol Gynradd Llisweri, Ysgol Gynradd Maindee, Ysgol Gynradd Milton, Ysgol Gynradd Ringland ac Ysgol Gynradd Sant Andreas;
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer de-ddwyrain Cymru;
- Estyn

Cyhoeddwyd dogfennau'r cynnig a'r ymgynghoriad ar wefan Ysgol Gynradd Eveswell, gwefan Ysgol Gynradd Somerton a gwefan Cyngor Dinas Casnewydd. Roedd copïau caled ar gael yn y ddwy ysgol hefyd. Trefnodd y ddau gorff llywodraethu ddigwyddiadau ymgysylltu penodol ar wahân yn benodol ar gyfer disgyblion a staff.

## Llais y Dysgwr

Paratowyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori oedd yn addas i'r disgyblion ac fe'i rhannwyd gyda disgyblion y ddwy ysgol. Hefyd, trefnodd y ddau gorff llywodraethu sesiynau ymgysylltu penodol ar gyfer y disgyblion, wedi'u trefnu gan yr Uwch Dimau Arweinyddiaeth lle trafodwyd y cynnig a rhoddwyd y cyfle i ofyn cwestiynau a chodi unrhyw bryderon. Mae'r Pennaeth Gweithredol wedi cadarnhau y codwyd rhai cwestiynau ynghylch trefniadau Pennaeth a Dirprwy Bennaeth y ddwy ysgol yn y dyfodol ac a fyddai unrhyw beth sydd ar waith ar hyn o bryd yn newid. Ar wahân i hyn, ni chodwyd unrhyw bryderon ac ni fynegwyd unrhyw resymau pam bod y disgyblion yn teimlo na ddylai'r cynnig gael ei roi ar waith.

## **Adborth gan Staff**

Hefyd, trefnwyd sesiwn ymgysylltu ar y cyd yn benodol ar gyfer y staff gan y ddau gorff llywodraethu. Cefnogwyd hyn gan Uwch Dimau Arweinyddiaeth y ddwy ysgol ynghyd â'r Adran Adnoddau Dynol a Phartner Busnes Datblygu Sefydliadol y Cyngor.

Cadarnhaodd yr holl staff eu bod yn cefnogi'r cynnig, a byddai hyn yn cael gwared ar unrhyw ansicrwydd ynghylch y trefniadau dros dro presennol. Bellach, mae staff y ddwy ysgol yn ystyried bod cydweithio yn arfer cyffredin a byddai unrhyw gam i newid hyn yn ansefydlogi'r ddwy ysgol ac yn effeithio ar y prosesau arfer da sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus dros y tair blynedd diwethaf.

Roedd yr unig gwestiynau a godwyd yn gofyn a fyddai unrhyw effaith ar drefniadau cyfredol gweithio mewn clwstwr.. Disgrifir y mater hwn mewn mwy o fanylder yn adran nesaf yr adroddiad.

## **Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Derbyniwyd dau ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori, y ddau gan Benaethiaid yr ysgolion o fewn clwstwr Llisweri. Roedd y ddau ymateb yn cefnogi'r cynnig ond yn awyddus i sicrhau na fyddai unrhyw effaith andwyol ar y trefniadau cyfredol o ran gweithio mewn clwstwr a phontio.

Yn ddaearyddol, dim ond 0.7 milltir sydd rhwng Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton. Fodd bynnag, maen nhw mewn clystyrau gwahanol – mae Ysgol Gynradd Eveswell yn rhan o glwstwr Llanwern ac Ysgol Gynradd Somerton yn rhan o glwstwr Llisweri. Mae'r trefniadau cydweithredol presennol wedi bod ar waith ers mis Medi 2016 ac mae'r Pennaeth Gweithredol wedi nodi bod gweithio ar draws dau glwstwr wedi bod yn eithaf heriol ar brydiau.

Fodd bynnag, o dan y cynnig hwn, bydd y ddwy ysgol yn parhau yn eu cymunedau ac yn cadw eu hunaniaeth unigol. O ganlyniad, ni ragwelir y bydd yna unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r trefniadau cyfredol.

## **Estyn**

Mae ymateb ffurfiol Estyn yn nodi bod yna resymeg glir dros y cynnig a bod yr honiad y gall y ffederasiwn wella'r hinsawdd o ymddiriedaeth, gonestrwydd a pharodrwydd i gydweithio sydd eisoes yn bodoli yn un rhesymol a dilys. Hefyd, mae'n amlinellu'r canlynol:

- Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar safonau disgyblion ac mae buddiannau cyffredinol y ffederasiwn yn nodi y byddai'r cynnig o leiaf yn cynnal safonau cyfredol addysg;
- Mae'r heriau sy'n ymwneud â'r cynnig wedi cael eu hystyried ac nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn rhwystrau sylweddol oherwydd y trefniant cydweithio sydd eisoes ar waith;
- Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau cyffredin a ofynnwyd ynghylch y ffederasiwn, gan gynnwys yr effaith tebygol y byddai'n ei gael ar staff yr ysgol, yn ddefnyddiol.

Fodd bynnag, roedd yr ymateb yn datgan bod yna ddiffyg dadansoddiad manwl digonol o berfformiad cyfredol y ddwy ysgol ac unrhyw gyfeirnod penodol i adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ar gyfer y ddwy ysgol. O ganlyniad, ni allai Estyn farnu'r effaith debygol y byddai'r cynnig yn ei chael ar safon y ddarpariaeth addysgiadol yn yr ardal.

### **Ymateb**

Yn 2019, llwyddodd llawer o'r plant yn y ddwy ysgol i gyrraedd y lefelau a ddisgwyliwyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, llwyddodd llawer o ddisgyblion Ysgol Gynradd Eveswell a llawer o ddisgyblion Ysgol Gynradd Somerton i gyflawni'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn a thra bo perfformiad a safonau Ysgol Gynradd Somerton wedi gwella ers cyflwyno'r cydweithio, mae'r ddwy ysgol wedi cael budd o'r trefniant. Mae'r ysgolion wedi cytuno i wella'r cwricwlwm yn barod ar gyfer rhoi'r 'Dyfodol Llwyddiannus' ar waith a chyflawni'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae'r disgwyliadau uchel a rennir gan y ddwy ysgol hefyd wedi cael eu datblygu trwy rannu arferion gorau, cymharu gwaith y disgyblion a chytuno ar sut i wella safonau a darpariaeth y ddwy ysgol.

Yn Ionawr 2014 yr archwiliwyd Ysgol Gynradd Eveswell ddiwethaf ac o ran *Perfformiad Cyfredol a Rhagolygon ar gyfer Gwella*, fe'i hystyriwyd yn **Rhagorol**. Ym mis Ionawr 2013, tynnwyd Ysgol Gynradd Somerton oddi ar y rhestr o ysgolion oedd angen cael eu monitro gan Estyn a chafodd ei harchwilio yn fwyaf diweddar ym mis Mehefin 2019. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019 yn cadarnhau bod yr ysgol bellach yn cael ei hystyried yn **Dda** o ran *Safonau, Lles a Dysgu ac Addysgu*, a **Rhagorol** o ran *Gofal, Cymorth a Chyfarwyddyd ac Arweiniad a Rheoli*. Mae hyn yn cefnogi'r ffaith bod Ysgol Gynradd Eveswell wedi bod yn y categori cefnogaeth "gwyrdd" ers cyflwyno'r broses categoriedd ac mae Ysgol Gynradd Somerton wedi gwella o "oren" i "felyn" ers cyflwyno'r trefniadau cydweithio yn 2016.

Hefyd, nododd Estyn bod y ddogfen ymgynghori wedi methu â darparu'r canlynol:

- Tystiolaeth y cafodd unrhyw syniadau amgen eu hystyried;
- Tystiolaeth bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i sut byddai'r cynnig yn effeithio ar blant gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a sut y gellid lleihau unrhyw ymyrraeth ar ddysgwyr;
- Gwybodaeth am statws cyfredol cyllideb y ddwy ysgol;
- Gwybodaeth ar sut byddai'r cynnig yn effeithio ar y lleoedd dros ben a threfniadau teithio'r ddwy ysgol.

### **Ymateb**

Daeth y cais i gyflwyno'r cynnig i ffederaleiddio yn uniongyrchol gan y ddau gorff llywodraethu oedd yn dymuno ffurfioli'r trefniadau cydweithio oedd wedi bod ar waith ers mis Medi 2016, yn wreiddiol am gyfnod o 3 blynedd. O ystyried llwyddiant y trefniant hwn a'r effaith bositif ar y ddwy ysgol, cysylltodd y cyrff llywodraethu â'r Awdurdod Lleol i amlinellu'r dymuniad i geisio am ffederaleiddio ffurfiol. Ni ystyriwyd opsiynau eraill, fel cyfuno, gan fod y cyrff llywodraethu a'r Awdurdod Lleol yn awyddus i'r ddwy ysgol barhau yn eu cymunedau, gan gadw eu hunaniaeth unigol. Fel yr amlinellwyd eisoes, er yn ddaearyddol agos, mae'r ysgolion wedi'u lleoli mewn clystyrau gwahanol.

Mae'r Pennaeth Gweithredol wedi amlinellu bod y trefniadau cydweithio wedi effeithio ar y ddarpariaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn cael budd o rannu profiadau ac mae'r ddau Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn darparu ar y cyd ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Hefyd, mae staff Ysgol Gynradd Somerton wedi rhannu eu profiadau ar feithrin disgyblion. Bellach, mae'r ddwy ysgol yn gweithio ar achredu eu dulliau o feithrin ac yn cefnogi ei gilydd i ddatblygu'r ddarpariaeth fel ei bod yn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr.

Ar hyn o bryd, mae'r ddwy gyllideb yn cael eu rheoli ar wahân gan y cyrff llywodraethu perthnasol. Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, bydd dwy gyllideb ar wahân yn parhau ond bydd y rhain ill dwy yn cael eu rheoli gan yr un corff llywodraethu wedi'i ffedereiddio. Ar hyn o bryd, mae'r ddwy gyllideb mewn gwaged. Ym mis Awst 2019, amcanestynir y bydd Ysgol

Gynradd Eveswell yn diweddu blwyddyn ariannol 2019/20 gyda gwarged o £189,000 ac Ysgol Gynradd Somerton gyda gwarged o £56,000.

Cadarnhaodd Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) Ionawr 2019 bod yna 419 o ddisgyblion o oed ysgol statudol ar y gofrestru yn Ysgol Gynradd Eveswell o'i gymharu â chyfanswm capasiti o 420. Mae hon yn ysgol boblogaidd sydd wedi'i gordanystrifio ac fe gyflwynwyd 10 apêl ynghylch rownd derbyn y cam trosglwyddo ym mis Medi 2019. Cadarnhawyd y 10 apêl o blaid yr Awdurdod Lleol. Hefyd, cadarnhaodd PLASC Ionawr 2019 bod yna 168 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd Somerton o'i chymharu â chyfanswm capasiti o 203, 35 o leoedd dros ben (17.2%). Er bod hyn yn uwch na'r canran dros ben o 10% y mae Llywodraeth Cymru yn ei hawgrymu, mae'r niferoedd dros ben mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ar draws y ddinas yn ei chyfanrwydd yn llawer is - tua 6.5%. Mae'r niferoedd dros ben ar draws clwstwr Llisweri yn tua 7.7%. Felly, mae'r niferoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Somerton yn angenrheidiol i gefnogi'r galw sydd am leoedd mewn ysgolion cynradd wrth i deuluoedd symud i mewn ac o amgylch Casnewydd yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'n bosibl y bydd y galw am leoedd yn Ysgol Gynradd Somerton yn cynyddu yn dilyn ffederaleiddio.

Mae polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor yn darparu trafndiaeth am ddim i ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol dalgylch neu'r ysgol sydd agosaf iddynt. Er na fydd y sefyllfa hon yn newid o dan y cynnig hwn, o fis Medi 2019, ni fydd disgyblion yn mynd i'r un o'r ddwy ysgol yn gymwys am y budd hwn. Felly, mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio ar drefniadau teithio a thrafnidiaeth.

Yn olaf, er bod yr Asesiad Effaith Tegwch a Chydraddoldeb (FEIA) wedi ystyried yn rhesymol na fyddai'r cynnig yn effeithio ar y Gymraeg, nododd Estyn na ystyriwyd i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) y Cyngor.

### **Ymateb**

Mae Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Tra bo'r ddwy ysgol yn dilyn yr holl elfennau o'r cwricwlwm cenedlaethol o ran y Gymraeg fel ail iaith, mae'r cynnig yn annhebygol o wneud cyfraniad ystyriol i darged 5 mlynedd Casnewydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y ddinas. Bydd y FEIA yn cael ei ddiweddarun fuan a chaiff hyn ei adlewyrchu'n unol â hynny.

### **Argymhellion**

Gofynnwyd i gyrff llywodraethau'r ddwy ysgol ystyried ar wahân gynnwys yr adroddiad a phenderfynu a ydynt yn dymuno symud ymlaen â'r cynnig. Os bydd y ddau gorff llywodraethu'n cytuno, bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau trwy broses ddemocratig y Cyngor y cytunwyd arni. Mae'r dyddiad targed o roi'r cynnig ffedereiddio ar waith yn parhau i fod yn 1 Ionawr 2020.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Gyngor Dinas Casnewydd ar ran cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton yn unol â ***Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014***.